



Y GOGARTH

llwybrau hanesyddol

- Golygfeydd arfordirol
- Safleoedd hanesyddol
- Agos i dref Llandudno

RHAGYMADRODD

Mae archeoleg a hanes y Gogarth yn dangos bod pobl wedi ymddiddori yn yr ardal hon ers miloedd o flynyddoedd. Drwy astudio'r darganfyddiadau archeolegol, gallwn greu darlun o hanes y pentir hwn a chael gwybod mwy am weithgareddau ein rhagflaenwyr o Oes y Cerrig hyd at y cyfnod diweddar. Erbyn hyn, rydym yn gwybod am fwy na 400 o safleoedd o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol ar y Gogarth. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hynny o fewn yr ardal sy'n cael ei rheoli fel Parc Gwledig, ac mae nifer o'r safleoedd hynny o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol.



Os ydych yn ymweld â'r Gogarth heddiw, rydych yn un o dros hanner miliwn o ymwelwyr sy'n dod i'r pentir hynod hwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n werth ichi gofio'r rhai sydd wedi byw a gweithio yma o'ch blaen. Tra byddwch yn cerdded y llwybrau hanesyddol, arhoswch i feddwl am y mwynwyr a fu'n llafurio dan y ddaear hon amser maith yn ôl neu am y nifer fawr o longdrrylliadau a ddigwyddodd ar hyd yr arfordir. Buan iawn y sylweddolwch mai rhan fechan iawn rydym i gyd yn ei chwarae yn hanes yr oesoedd.

Mae hon yn un o gyfres o daflenni. I gael rhagor o wybodaeth am y rhain ac am deithiau cerdded eraill ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ewch at:
www.conwy.gov.uk/cefn gwlad
neu ffoniwch 01492 575200 /575290

↩ **Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda**
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch



"Mae'r map Arolwg Ordnans sydd wedi ei gynnwys efo'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan drwydded oddi wrth Arolwg Ordnans er mwyn cyflenwi ei swyddogaeth gyhoeddus i roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau cyhoeddus lleol. Dylai pobl sy'n edrych ar y map hwn gysylltu efo hawlfraint Arolwg Ordnans am gyngor os ydynt yn dymuno cael trwydded eu hunain i ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans."



Gwybodaeth am y daith

Pellteroedd:

Llwybr A – 4.2 milltir (6.7 cilometr).

Llwybr B – 3.2 milltir (5.2 cilometr).

Llwybrau A a B gyda'i gilydd – 6.6 milltir (10.7 cilometr).

Amser: Llwybr A – 2½ awr.

Llwybr B – 2 awr.

Llwybrau A a B gyda'i gilydd – 4 awr.

Tirwedd: Mae'r tir yn anwastad, gyda llethrau serth (i fyny ac i lawr) ar llwybrau glaswellt, lonydd a ffyrdd.

Cŵn: Cadwch gŵn dan reolaeth dynn drwy'r amser, os gwelwch yn dda.

Map: Outdoor Leisure 17.

Cyfeirnod grid y dechrau a'r diwedd: Maes parcio Pen y Gwylfryn ar y Gogarth SH765 833.

Lluniaeth: Ar gael yng nghaffi Canolfan Pen y Gwylfryn ac yng nghaffi Rest and Be Thankful ar Gylchdro'r Gogarth. Mae'r ddau ar agor bob dydd rhwng y Pasg a diwedd mis Hydref, ac ar rai penwythnosau y tu allan i'r tymor.


Amcangyfrifon bras yw'r holl amseroedd a phellteroedd.

Byddwch yn barod. Gwisgwch esgidiau cerdded cryf. Gall y tywydd ar y copa fod yn wahanol iawn i'r hyn a gewch i lawr yn y dref, felly dewch â dillad cynnes sy'n dal dŵr, hyd yn oed yn yr haf.

Gwiriwch y tywydd ar gyfer y daith:

www.metoffice.gov.uk

Cofiwch gall y tywydd newid yn sydyn.



SUT I GYRRAEDD

Ar y trê: I gael gwybodaeth am drenau i Landudno, ffoiniwch y llinell ymholiadau genedlaethol ar 08457 484950 neu ewch at www.nationalrail.co.uk

Mewn bws: Mae'r gwasanaethau i Ben y Gwylfryn yn amrywio'n yn ôl yr adeg o'r flwyddyn. I gael gwybodaeth am wasanaethau, ffoiniwch Traveline Cymru ar 0870 608 2 608 neu ewch i www.traveline-cymru.org.uk

Gallwch hefyd ffonio'r Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus ar 01492 575412.

Mewn tram: Mae Tramffordd Fictoriaidd y Gogarth yn rhedeg o droed y Gogarth i Ben y Gwylfryn rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd. I gael gwybodaeth, ffoiniwch 01492 879306 neu ewch i www.greatormetramway.co.uk

Mewn car: Dilynwch ffordd yr A470 i ganol Llandudno. Ewch i fyny'r stryd fawr, yn syth heibio i'r gylchfan, a dilynwch yr arwydd brown at y mwngloddiau copor i fyny'r stryd gul. Daliwch i fynd ar hyd y ffordd hon nes cyrraedd Pen y Gwylfryn. Mae maes parcio talu ac arddangos ar Ben y Gwylfryn.



Edrych tua Chwarel yr Esgob o Ben y Gwylfryn.

LLWYBR

A

Ewch at fynedfa maes parcio Pen y Gwylfryn a dilyn y ffordd i lawr. Gan gadw'r gweundir ar y dde i chi, ewch o ochr y ffordd ac anelwch am y chwarel.

1 Chwarel yr Esgob yw hon, sef rhan o'r tir a roddwyd i Esgob Bangor wedi i Edward II ddod yn Dywysog Cymru yn 1307. Mae'r calchfaen y gallwch ei weld yma wedi'i ffurfio o weddillion creaduriaid y môr a oedd yn byw yn y cyfnod Carbonifferaidd rhwng 300 a 350 o filiynau o flynyddoedd yn ôl, pan oedd yr hyn sydd bellach yn ogledd Cymru'n gorwedd dan fôr trofannol bas. Os edrychwch ymysg y cerrig rhydd, fe welwch ffosiliau llawer o'r creaduriaid hynny. Rydych yn fwyaf tebygol o ddod o hyd i ddarnau o braciopodau (anifeiliaid cragennog fel cregyn gleision), ond mae llawer o ffosiliau crinoidau hefyd (anifeiliaid coesog sy'n perthyn i sêr môr) a chwrel a oedd yn ffurfio creigresi. Mae'r Gogarth yn cael ei warchod fel parc gwledig a gwarchodfa natur, felly peidiwch â thorri unrhyw ffosiliau i'w hagar na mynd â hwy oddi yma yn ystod eich ymweliad, ond mwynhewch edrych arnynt.



Ffynnon Gogarth.

Dewch yn ôl allan o'r chwarel a throwch i'r chwith, gan gadw gwaelod y gweundir ar y dde i chi. Ewch at y bwrdd dehongli ar gornel y wal gerrig sydd o gwmpas y tir ferm.

2 Pan ddaeth y mwngloddiau copor yn agosach at lefel y môr, roedd yn rhaid cael rhyw fath o bwmp mecanyddol. Tom a Jerry oedd yr enw ar y peiriant a ddefnyddid - cafwyd y dŵr ar ei gyfer o Ffynnon Gogarth sydd ychydig islaw'r man lle'r ydych yn sefyll. Mae'r bwrdd dehongli'n dangos sut roedd y peiriant yn gweithio. Dywedir mai Thomas Jones o Drelawnyd, Sir y Fflint, asiant y mwnglawdd newydd o 1827 ymlaen, a osododd y peiriant.



Edrych i lawr Llwybr y Mynachod yn gynnar yn yr haf; rhosod y graig yw'r blodau melyn.

Dilynwch y wal eto am ryw 600 medr, gan ei chadw ar y dde i chi, nes y dewch at ddau arwydd llwybr natur sy'n eithaf agos at ei gilydd. Dilynwch y rhain i lawr y llethr. Dilynwch y llwybr hwn ar i lawr nes bydd yn ymuno â Chylchdro'r Gogarth.

3 Dyma Lwybr y Mynachod, a oedd, yn ôl yr hanes, yn cael ei ddefnyddio gan fynachod flynyddoedd lawer yn ôl. Dywedir bod y llwybr tra sathredig hwn yn lasach bob amser na'r tir o'i gwmpas oherwydd traed sanctaidd y mynachod a'r dŵr cysegredig yr oeddent wedi'i golli ar hyd y ffordd.

Mae'n bosibl bod y tir rhwng y Gogarth a'r mynyddoedd yn rhan o diroedd chwedlonol Helig, Arglwydd Tyno, y credir eu bod wedi mynd dan y don yn y chweched ganrif. Yn ôl yr hanes, roedd merch Helig mewn cariad â dyn cyffredin. Nid oedd yn cael ei briodi, gan nad oedd yn gwisgo torch aur fel y byddai uchelwr. Un diwrnod daeth y gwŷr ifanc ar draws uchelwr a'i ladd, gan ddwyn ei dorch aur. Gorchmynnodd y ferch iddo fynd yn ôl a chladdu'r corff i guddio tystiolaeth ei weithred ysgeler.

Fel yr oedd yn torri'r bedd, clywodd lais yn dweud, 'Daw dial!' Rhoddodd wybod am hynny i ferch Helig ac fe'i hanfonodd yn ei ôl gan ddweud bod rhaid iddo ofyn pa bryd y deuai dial os clywai'r llais eto. A hynny a wnaeth. Pan glywodd y llais eto, gofynnodd, 'Pa bryd y daw dial?' Atebodd y llais, 'Yn oes eich plant, eich wyrion a'ch gorrwyrion.' Ar ôl clywed hynny, dywedodd y ferch, 'O, byddwn yn farw erbyn hynny!'

Felly priodasant, a byw'n ddigon hir i weld eu gorrwyrion. Roedd y llais a soniodd am ddial wedi'i hen anghofio. Fodd bynnag, un noson pan oedd gwledd fawr yn cael ei chynnal yn Llys Helig, aeth morwyn i'r seler i nôl gwin a chael bod y seler yn hanner llawn o ddŵr heli. Ffodd y forwyn gyda'i chariad, ac erbyn y bore roedd Llys Helig wedi diflannu'n llwyr.

Dros y blynyddoedd, mae chwedl Llys Helig wedi ysbrydoli lawer o chwilio am dystiolaeth hanesyddol.



Edrych ar draws tiroedd chwedlonol Helig tua Phenmaenmawr a mynyddoedd Eryri.



Adfeilion yw'r cyfan sydd ar ôl o Balas yr Esgob.

Pan ddewch i Gylchdro'r Gogarth, trowch i'r dde, gan groesi i'r ochr arall i gerdded ar y palmant.

4 Fe welwch lawer o dai mawr islaw. Ar dir un o'r rhai cyntaf, lle mae'r ardd yn cyrraedd y traeth, mae olion dan orchudd o iorwg. Dyma adfeilion adeilad a godwyd gan Esgob Anian I yn ôl pob tebyg, ar ddiwedd y 13 ganrif, ac mae'n bosibl ei fod yn anrheg iddo oddi wrth Edward I wedi i Anian fedyddio ei fab yn Dywysog Cymru. Yn 1291, cofnodwyd bod y faenor yn werth £4.1s.8g. y flwyddyn a fyddai'n werth £3,000 heddiw ac roedd yn cynnwys melin hefyd. Er hynny, mewn arolwg a wnaed yn 1352 gan y Tywysog Du, mab Edward III, mae'r cofnodion yn dweud nad oedd y felin wynt ond yn werth dau swllt gan ei bod wedi torri – buasai'n werth pedwar swllt pe byddai'n cael ei thrwsio! Mae'n debyg bod Llys yr Esgob wedi'i ddinistrio gan dân. Gallai hynny fod wedi digwydd yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr yn 1402. Gwerthwyd y tir gan yr Eglwys yng Nghymru yn 1891 ac mae'r adfeilion yn awr yn sefyll ar dir preifat.

Ewch ymlaen ar hyd Cylchdro'r Gogarth, gan fwynhau'r olygfa tua'r mynyddoedd. Cadwch olwg ar y tir islaw ar y chwith. Wedi ichi fynd heibio i'r tai, byddwch yn edrych i lawr ar y rhan o'r Parc Gwledig sy'n cael ei galw'n Safle Magnelau. Ewch ymlaen at y panel dehongli sy'n edrych dros y rhan hon o'r parc.

5 Defnyddid y Safle Magnelau gan Ysgol Fagnelau Arfordirol y Magnelwyr Brenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fe'i symudwyd o'i safle hanesyddol yn Shoeburyness, Essex i'r Gogarth wedi i'r ysgol roi ystyriaeth ofalus i nifer fawr o safleoedd ar arfordir gorllewinol Prydain. Dewiswyd y Gogarth am fod manau addas i angori llongau yn weddol agos yn Afon Menai, ac roedd amodau da ar gyfer cyfarwyddo llongau dros y radio. Fel sy'n digwydd yn aml ym myd milwyr, cynlluniwyd patrwm y safle mewn un diwrnod gan ddefnyddio balŵns tegan a brynwyd mewn siop leol i farcio'r safle. Symudodd yr ysgol ym mis Medi 1940 a dechreuodd ar ei gwaith ar y 24 diwrnod o'r mis hwnnw. Yn ogystal â'r adain magnelau, sefydlwyd adain radio ac adain llifoleuadau ym 1940. Dechreuwyd darparu cyrsiau i swyddogion dan hyfforddiant ym 1941 a daethant i'w hanterth ym 1942, pan oedd lle i 150 o swyddogion, 115 o gadetiaid a 445 o filwyr o rengoedd eraill, (ac roedd modd) rhedeg hyd at 14 o gyrsiau yr un pryd. Ar ddiwedd y rhyfel, symudwyd yr arfau a'r cyfarpar oddi yma a dychwelwyd y tir i ofal Ystadau Mostyn, a oedd yn berchen ar y rhan fwyaf o'r pentir. Aeth yr adeiladau'n adfeilion a dymchwelwyd y rhan fwyaf ohonynt ganol y 1950au. Wrth edrych i lawr ar y tir hwn yn awr, mae'n anodd dychmygu criwiau'r magnelau a'r milwyr dan hyfforddiant yn mynd o gwmpas eu pethau. Mae'n ymddangos mai'r peth mwyaf cyffredin yw wneud yn yr ardal hon heddiw yw mynd am dro yn y prynhawn.



Ynys Môn ac Ynys Seiriol o uwchben Ogof Hornby.

EWCH YMCLAEN AR HYD CYLCHDRO'R GOGARTH, gan droi'n raddol tua'r dde a gadael y safle magnelau ar eich ôl. Yn fuan wedi i'r ffordd gyrraedd tir gwastad, byddwch yn dod at giât fferm yn y wal – mae'r man gwastad yr ochr draw i'r giât yn lle braf i orffwys a mwynhau'r olygfa. Dyma eithaf gogledd-orllewinol y Gogarth.

6 Mae Ogof Hornby yn bell islaw. Cafodd yr ogof ei henwi ar ôl llong yr Hornby a aeth ar y creigiau yma Ddydd Calan 1824. Lladdwyd pawb o'r criv gan y tonnau, heblaw'r gwyliwr Mr John Williams, a daflwyd o'r rigin i ben y clogwyn. Arhosodd ar y Gogarth a daeth yn un o fwynwyr copor Llandudno. Roedd yn ffigwr enwog yn yr ardal ac roedd yn hoff o adrodd hanes ei ddihangfa. Nid oedd yr Hornby ond yn un o blith nifer mawr o longau a ddrylliwyd ar arfordir y Gogarth.



Ffynnon Gaseg ar Gylchdro'r Gogarth.

EWCH YMCLAEN AR HYD CYLCHDRO'R GOGARTH nes y gwelwch arwydd ar yr ochr dde ac arno'r geiriau 'Ffynnon Gaseg'.

7 Ffynnon Gaseg yw un o'r nifer mawr o ffynhonnau a geir hwnt ac yma ar hyd y pentir. Nid yw'n amlwg sut y cafodd ei henw, er ei bod yn debyg ei bod yn cael ei defnyddio fel cafn dŵr i geffylau ar ôl creu Cylchdro'r Gogarth. Mae'r ffrydiau naturiol sy'n bwydo'r ffynhonnau wedi darparu dŵr croyw yn gyson, a bu hynny'n ffactor pwysig o ran denu pobl i fyw ar y Gogarth ers Oes y Cerrig.



Yr olygfa o Ben Trwyn ar hyd ochr ddwyreiniol Cylchdro'r Gogarth.

EWCH YMCLAEN AR HYD CYLCHDRO'R GOGARTH, gan fynd heibio i ffordd goncrit ar y dde i chi. Byddwch yn dod yn ôl i'r fan hon yn ddiweddarach ar ôl mynd allan o'ch ffordd i weld Goleudy Pen y Gogarth.

8 Cyn gwneud ffordd Cylchdro'r Gogarth, roedd llwybr troed peryglus yma o'r enw Llwybr Cust. Reginald Cust, bargyfreithiwr o Lundain ac un o ymddiriedolwyr Ystad Mostyn, a ofynnodd am iddo gael ei wneud ym 1856. Codai geiniog o doll tuag at y gwaith o gynnal y llwybr. Ym 1868, cerddodd y Prif Weinidog William Gladstone ar y llwybr hwn, a chwynodd ei fod mor beryglus fel y bu'n rhaid rhoi mwgwd dros ei lygaid i'w dywys ar hyd rhai o'r rhannau mwyaf anodd. Felly, ym mis Ebrill 1869, rhoddodd comisiynwyr y dref orchymyn i wario £10 o arian y trethdalwyr i godi rheiliau ar hyd y rhannau gwaethaf. Ym 1872, cyhoeddodd cwmni'r 'Great Orme's Head Marine Drive Co. Ltd. ei gynlluniau i wario £14,000 ar waith i droi Llwybr Cust yn ffordd, fel y mae heddiw. Cwblhawyd y ffordd ym 1878.

Y tollau oedd:

- Cerddwyr 1 geiniog
- Beiclwyr 2 geiniog
- Ceffylau cyfrwy 3 ceiniog
- Cerbydau 6 cheiniog am bob ceffyl

Mae Cylchdro'r Gogarth yn dollffordd o hyd, ac yn cael ei rheoli bellach gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.




Y goleudy.


Ychydig y tu draw i gaffi Rest and Be Thankful fe welwch y goleudy ar y chwith o dan Cylchdro'r Gogarth. Mae'n adeilad gwyn sgwâr sydd â dau lawr iddo.

9 Mae Goleudy Pen y Gogarth yn sefyll ar ben clogwyni 300 troedfedd o uchder, ac roedd ei lampau i'w gweld o bell dros y môr. Cafodd ei gynllunio a'i adeiladu gan Mr Lyster, pen beiriannydd Bwrdd Dociau a Phorthladd Merswy. Dangoswyd y golau'n gyntaf ar 1 Medi 1862, drwy ddefnyddio lampau wig paraffin. Ym 1923 rhoddwyd lampau mantell asetilen tawdd yn lle'r lampau hynny, ac roedd y rhain yn creu golau a oedd yn gymaint â 13,000 o ganhwyllau. Dywedid bod modd gweld y golau o'r goleudy 24 milltir i ffwrdd. Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r goleudy ym mis Mawrth 1985, ac fe'i rhoddwyd ar ocsiwn. Ers hynny, mae wedi'i ddefnyddio fel llety gwely a brecwast unigryw. Tynnwyd y lens gwreiddiol ac mae'n cael ei arddangos yn awr, mewn cyflwr gweithio, yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig ger Pen y Gwylfryn.

	Park Owelting Country Park		Detmaring, Daith Start of Walk
	Mor Sea		Taith A Route A
	Tywd Sand		Taith B Route B
	Ced Trees		Tranfford Tramway
	Caeau Fields		Car Cefl Cable Car
	Tref Town		Canolfan Ymwelywyr Visitor Centre
	Adelaidau Buildings		Tollleddu Toilets
	Ffyrdd Roads		Safleoedd Picnig Picnic Sites
	Trac Track		Llunhaeth Remnants
	Llwybrau Enill Other Footpaths		Ffôn Agyfng Emergency Telephone
	Parco Parking		



© Hawfltraint y Goron. Cedwir pob hawl:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380. 2013
© Crown copyright. All rights reserved:
Conwy County Borough Council 100023380. 2013



- 1 Yr Oas la d'adletl wael gadellet men c'wv'd rheinli 10,000 myned yn 6
- 2 C'romlech
- 3 Deschur n'nyngyodollic copr
- 4 Bryngaer Pen Dinas
- 5 Tudro'n abaelu'r eglwys gynat
- 6 Ffermio canoloesol
- 7 Tudro buedl the first church
- 8 Llythnolous built
- 9 Adalliddu gusleu
- 10 Yr gelf yn cwyraed
- 11 Arrival of the goats
- 12 Yr gelf yn cwyraed
- 13 Tudro'n abaelu'r eglwys gynat
- 14 Tudro buedl the first church
- 15 Ffermio canoloesol
- 16 Deschur n'nyngyodollic copr
- 17 C'romlech
- 18 Yr Oas la d'adletl wael gadellet men c'wv'd rheinli 10,000 myned yn 6



Maen crwydr rhewlifol.

Trowch yn eich ôl a dychwelyd at y ffordd goncrit yr aethoch heibio iddi'n gynharach. Ewch i fynyr ffordd hon at y fan lle mae'n dechrau troi tua'r dde a mynd yn fwy gwastad, a chymerwch y llwybr i'r chwith dros y gweundir. Dilynwch y llwybr hwn nes y dewch at y wal gerrig uchel sydd o gwmpas y tir fferm. Gan gadw'r wal ar y dde i chi, ewch ar ei hyd. Tua'r chwith, fe welwch fod ffurf ryfedd i rai o'r cerrig calchfaen yn y fan hon.

10 Mae rhai o'r cerrig yn sefyll â'u pigau yn y ddaear. Mae rhai ohonynt yn sefyll ar ben carreg arall. Cafodd y rhain eu gadael ar ôl gan rewlifoedd a'r enw arnynt yw meini dyfod. Maent yn ein hatgoffa am yr Oes lâ diwethaf a fu mor bwysig o ran creu'r Gogarth fel rydym yn ei weld heddiw. Rhoddwyd enwau ar rai o'r cerrig hyn dros y blyneddau gan gynnwys 'Mam a'i Merch' a 'Torth Masnach Rydd'. Cafodd y garreg olaf hon ei henwi felly am ei bod yn debyg i dorth gron, a chredir bod pobl wedi arfer cyfarfod yma i daro borgen yn y dyddiau a fu. Mae llawer o bobl wedi dweud iddynt deimlo'n anesmwyth yn y rhan hon o'r Gogarth, yn enwedig ar ôl iddi dywyllu!



Yr olygfa o'r trac tuag eglwys Tudno Sant.

Felly er mwyn bwrw ymlaen cyn iddi dywyllu, dilynwch y llwybr ar hyd ochr y wal. Ewch i fynyr bryncyn nes cyrraedd y giât – cerddwch heibio i ochr y giât ac ymlaen ar hyd y lôn, gan gadw'r wal ar y dde i chi, nes y gwelwch yr arwydd ar y dde ac arno'r geiriau 'Ffynnon Llety Fadoc/Roman Well'.

11 Cartref neu annedd yw ystyr 'llety' yn yr enw hwn. Roedd Madoc Gloddaeth a'i dad Madoc ap Iorwerth Goch o'r Creuddyn yn byw yn ystod y 13 ganrif, a chredir bod y Gogarth yn fferm geirw iddynt. 'Roman Well' yw'r enw Saesneg ar y ffynnon, er nad oes fawr o dystiolaeth bod y Rhufeiniaid wedi bod ar y Gogarth ac ni chanfuwyd unrhyw olion o anheddiad Rhufeinig yma. Er hynny, cafwyd hyd i rai darnau arian Rhufeinig o gwmpas y pentir, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod y ffynnon wedi'i defnyddio i olchi mwyn copor, yn amser y Rhufeiniaid o bosibl.

Ewch ymlaen ar hyd y lôn. Byddwch yn mynd heibio i fwrdd dehongli sy'n sôn am grefydd a defodaeth yn y tirlun, ac mae gwybodaeth arno am y tir ar y chwith i chi. Cyn ichi gyrraedd y ffordd, byddwch yn gweld postyn cyfeirio pren ar y dde i chi. Yn y fan hon, gallwch ddewis gorffen Llwybr A a dychwelyd i'r copa neu ddal i gerdded ar Lwybr B. Os ydych am gerdded Llwybr B hefyd, trowch at adran B a dechrau lle mae'r cyfarwyddiadau 'At Eglwys Tudno'.

Er mwyn gorffen Llwybr A, trowch i ffordd tua'r dde, gan ddilyn yr arwydd cyfeirio sydd â llun dyn yn cerdded, i fynyr allt. Daliwch i ddilyn yr arwyddion cyfeirio, ond cyn ichi droi tua'r dde i'r llwybr sathredig sy'n mynd tua'r copa, cymerwch gipolwg ar y tir ar y chwith wrth droed tyrau'r car cebl.

12 Dylech allu gweld man lle y mae pantiau yn y ddaear. Bryniau Poethion yw'r enw ar y lle hwn. Ym 1849, daeth William a Joseph Jones yma i chwilio am gopor, a daethant o hyd i rywffaint ohono'n agos iawn i wyneb y ddaear. Pan aeth y si ar led am eu darganfyddiad, daeth llawer o chwilotwyr eraill a chloddio am gopor yn y fan hon, gan adael y pantiau a welwn heddiw. Mae'r ardal hon yn cael ei galw weithiau'n 'Galifornia Cymru', gan fod y rhuthr am gopor wedi digwydd tua'r un pryd â'r rhuthr am aur yng Nghalifornia, er nad oedd ar yr un raddfa'n hollol!

Adeiladwyd y car cebl ym 1969. Mae'n mynd ag ymwelwyr o Erddi'r Fach i Ben y Gwylfryn a hon yw'r ffordd gar cebl hwyaf ym Mhrydain.



Cefnennau a rhychau.

Dilynwch yr arwyddion cyfeirio i fynyr allt tua Chanolfan Pen y Gwylfryn. Arhoswch i gael eich gwynt wrth y bwrdd dehongli hanner ffordd i fynyr, a chymerwch olwg ar y tir islaw.

13 Ar hyd y tir, dylech allu gweld llinellau'r tirwedd 'cefnen a rych', sef olion y cymunedau amaethyddol cynnar a fyddai'n aredig y tir hwn yn yr oesoedd canol. Darllenwch y bwrdd dehongli i gael rhagor o wybodaeth.



Bryniau poethion.



Canolfan Pen y Gwylfryn.

EWCH ymlaen at Ganolfan Pen y Gwylfryn a safwch ym mynedfa'r caffi. Edrychwch draw dros y tir fferm sydd o fewn y wal gerrig, a cheisiwch ddychmygu defnydd arall i'r tir hwn.

14 Mae hanes cymysg i'r tir o gwmpas Pen y Gwylfryn. Ym 1840, codwyd gorsaf deligrff yma gan Ymddiriedolwyr Doc Lerpwl, un o blith nifer a godwyd i drosglwyddo negeseuon rhwng Caergybi a Lerpwl. Dywedid bod ceidwad yr orsaf, Mr Jones, yn gwrtais iawn wrth ymwelwyr – roedd ef a'i wraig wedi neilltuo ystafell â dodrefn cyfforddus i gynnig te, diod lemnw a dŵr soda idynt ym misoedd yr haf.

Ym 1899, adroddwyd yn y North Wales Chronicle fod y Telegraph Inn a'r tir cyfagos wedi'u prynu er mwyn codi gwesty da ar y copa. Dechreuodd y gwaith arno ym 1903. Roedd yr adeilad gorffenedig yn debyg i gaer gyda thŵr ar un gornel a feranda dan do, yn debyg iawn i'r hyn a welwch heddiw, ac roedd yn cynnig llety i tua 30 o bobl. Cwblhawyd cwrs golff 18 twll erbyn 1909 ar y tir o fewn y wal. Mewn hysbyseb ar gyfer y cwrs, fe'i disgrifiwyd fel a ganlyn: 'a sporting and fine all-round course, and very popular in the summer on account of its bracing altitude, fine views and wondrous turf. Terms 3s 6d per day.'



Canolfan Ymwelwyr y Gogarth.

Ym 1941, cymerodd yr Awyrlu feddiant o'r gwesty i'w ddefnyddio fel gorsaf radar. Ni fu fawr o sôn amdano wedyn tan 1952, pan gymerwyd ef drosodd gan Randolph Turpin, pencampwr bocsiu pwysau canol y byd. Y flwyddyn cynt roedd Turpin wedi curo Sugar Ray Robinson i ennill teitl y byd i Brydain am y tro cyntaf mewn 60 mlynedd. Ailwampiodd Turpin y ganolfan a'i throi'n 'Summit Hotel', gyda 'Randy's Bar', ac arferai gyflwyno sioeau bocsiu awyr agored y tu allan i'r gwesty. Gwaetha'r modd, fe laddodd Turpin ei hun ym 1966. Heddiw, mae'r Ganolfan yn cael ei rhedeg fel busnes preifat gyda chaffi a siopau rhoddion.

WRTH ddychwelyd i'r maes parcio, byddwch yn mynd heibio i Ganolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig, sy'n agored yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf. Y tu mewn, gallwch ddarganfod rhagor am Barc Gwledig a Gwarchodfa Natur Leol y Gogarth.

Diwedd Llwybr A




LLWYBR B

Mae'r tri phwynt cyntaf ar Lwybr B yr un fath â rhan o Lwybr A sydd wedi'i disgrifio uchod.

Gan gychwyn yn y maes parcio, cerddwch i fyny at Ganolfan Pen y Gwylfryn a sefyll ym mynedfa'r caffi. Edrychwch draw dros y tir fferm sydd o fewn y wal gerrig, a cheisiwch ddychmygu defnydd arall i'r tir hwn. I gael gwybodaeth hanesyddol am y fan hon, darllenwch rif 14 ar Lwybr A.

Cerddwch heibio i gefn Canolfan Pen y Gwylfryn a dilyn yr arwyddion cyfeirio pren i lawr y llwybr sydd ar y chwith i adeilad y car cebl. Arhoswch wrth y bwrdd dehongli hanner ffordd i lawr i edrych ar y tir islaw. I gael gwybodaeth hanesyddol am y fan hon, darllenwch rif 13 ar Lwybr A.

Dilynwch yr arwyddion cyfeirio pren i lawr tua'r chwith, gan aros yn gyntaf i edrych draw at y tir ger tŵr y car cebl. I gael gwybodaeth hanesyddol am y fan hon, gwelwch rif 12 ar Lwybr A.



Eglwys Tudno Sant.

Wedi ichi gyrraedd y lôn, ewch ar ei thraws i ymuno â'r ffordd a dilynwch y ffordd i lawr. Ewch ymlaen i lawr y ffordd i'r fan lle y mae'r ffens ar y chwith i chi'n gorffen a'r wal gerrig yn dechrau. Ewch drwy'r trydydd bwa cerrig ac i'r eglwys, a threuliwch ychydig o amser i fynd o'i chwmpas – bydd yr eglwys ar agor fel arfer yn ystod misoedd yr haf.

1 Eglwys Tudno yw hon, ac mae wedi'i henwi ar ôl cenhadwr Cristnogol o Gymru o'r 6 ganrif OC. Roedd yn un o saith mab Seithenin Frenin, pennaeth Maes Gwyddno, a oedd yn gantref (hen raniad ar drefi neu dir) ym Mae Ceredigion. Yn ôl yr hanes, cafodd tiroedd isel y cantref eu boddio gan y môr a hynny, mae'n debyg, fel cosb am greulondeb Seithenin at ei bobl. Roedd Tudno a thri o'i frodyr wedi dianc ac aethant yn fynachod. Yn ddiweddarach, daeth Tudno i'r Gogarth, a oedd bryd hynny'n fan addoli pwysig i baganiaid. Nid oes dim ar ôl o'r adeilad a gododd, ac mae rhan hynaf yr eglwys bresennol yn dyddio'n ôl i'r 12 ganrif. Ehangwyd yr eglwys yn y 15 ganrif. Ym 1839, chwythwyd y to oddi arni mewn storm fawr. Roedd yn dal yn adfail tan 1855, pan gafodd ei hail-doi a'i hatgyweirio. Mae tref fodern Llandudno wedi'i henwi ar ôl Tudno Sant, ac ystyr yr enw yw 'tiroedd eglwys Tudno'. Yn y fynwent, fe welwch y pulpud awyr agored a'r mannau addoli ar gyfer gwasanaethau yn yr haf. Wrth y wal uchaf fe welir yr hen gerrig march o hyd: defnyddid y rhain flynyddoedd yn ôl gan rai a oedd yn marchogaeth i'r eglwys, i esgyn a disgyn oddi ar gefn ceffyl.



Mae'r hen gronfa ddŵr yn llawn tyfiant ac wedi'i hamgylchynu gan goed rŵan.

EWCH ALLAN O'R FYNWENT YR UN Ffordd AG Y DAETHOCH I MEWN. Gyferbyn â chi, mae mynegbost pren yn dangos lle y mae llwybr troed yn dechrau. Dilynwch y llwybr i gyfeiriad Ski Llandudno. Os edrychwch i lawr tua'r chwith rhwng y llwyni, fe welwch hen gronfa ddŵr yn y cae islaw.

2 Adeiladwyd y gronfa hon yn y 1860au i gael cyflenwad dŵr ychwanegol. Roedd poblogaeth Llandudno ar gynydd ac roedd y diwydiant ymwelwyr yn tyfu mor gyflym fel nad oedd yr hen gyflenwadau'n ddigon i ateb y galw.

EWCH YMlaen ar hyd y llwybr hwn nes y dewch at arwydd ar y dde ac arno'r geiriau 'Ffynnon Powell'.

3 Dywedir bod ffermwr a'i deulu o'r enw Powell yn byw ger y ffynnon hon amser maith yn ôl. Un haf, cafwyd sychdwr difrifol. Bu'r teulu ei hun yn dioddef yn ogystal â'r gwartheg a'r defaid. Oherwydd rhyw anghydfod yn y gorffennol, roedd yr holl gymdogion yn gwrthod rhoi dŵr iddynt ac yn bygwth eu lladd os aent yn agos at unrhyw un o'r ffynhonnau ar y Gogarth. Roedd y teulu bron â marw o eisiau dŵr ac felly, gan eu bod yn bobl grefyddol, aethant i Eglwys Tudno i weddio am ddŵr. Wedi iddynt ddod adref, roedd ffynnon o ddŵr byrlymus ger drws eu tŷ. Enwyd y ffynnon ar ôl y teulu, a hyd yn oed yn ystod yr hafau sychaf, ni fydd byth yn mynd yn sych, yn ôl y sôn.

EWCH YMlaen ar hyd y llwybr troed rhwng caeau'r fferm a thrwy'r giatiau ger Pink Farm, gan gofio eu cau ar eich ôl. EWCH drwy'r giât mochyn sydd o flaen y fferm a dilyn y llwybr i gyfeiriad Ski Llandudno sy'n cael ei ddangos gan y mynegbost pren. Daliwch i ddilyn y pyst cyfeirio bach. Ar ôl mynd heibio i derfyn y cae ar y chwith i chi mae ffynnon arall, islaw ac o'r golwg.

4 Ffynnon Galchog yw enw'r ffynnon hon ac mae'n bosibl ei bod wedi'i henwi felly oherwydd ei chysylltiad â chalch. Ar un adeg, byddai llawer o bobl yn nôl dŵr o'r ffynnon hon oherwydd y gred ei fod yn helpu i ddatblygu dannedd da ac esgyrn cryf mewn plant.

Mae hen chwedl yn gysylltiedig â'r ffynnon hon. Aeth merch ifanc a'i brawd o'r pentref i Ffynnon Galchog i nôl dŵr. Y gaeaf oedd hi ac yn y cyfnos roeddent wedi llenwi eu piseri ac yn mynd adref y ffordd y daethant ar ei hyd. Yn fwyaf sydyn, dyma'r ddau ohonynt yn gweld yr hyn a oedd yn ymddangos fel dyn yn dod i'w cyfarfod. Yn ddisymwth, dechreuodd chwyrlio a throi i fod ar ffurf bwndel o wair a droellodd ac a rowlodd nes iddo fynd o'r diwedd dros ochr y Gogarth ac i'r môr. Gryn amser ar ôl hynny, daliwyd pysgodyn mawr yn y bae ac oddi mewn iddo roedd bwndel o wair. Roedd llawer yn credu mai'r un bwndel ydoedd.



Edrych tua Ffynnon Galchog.

EWCH YMlaen gan ddilyn yr arwyddion cyfeirio at y llethr sgïo. Wrth fynd, cadwch lygad yn agored am eifr enwog y Gogarth – mae'r tir tua'r chwith yn hoff le gan rai ohonynt.

5 Mae'r geifr yn rhydd i grwydro, felly gallant fod yn rhywle ar y pentir. Weithiau, gallwch weld cynifer â 30 ohonynt gyda'i gilydd ac yna, peidio â gweld yr un ohonynt wedyn am wythnosau ar y tro. Geifr Cashmir yw'r rhain ac maent wedi crwydro'n rhydd ers tua 100 mlynedd. Mae'r praidd yn dyddio'n ôl i 1823, pan ddaeth Mr Christopher Tower o Weald Hall, Essex, â dwy afr Cashmir i'w stad i gynhyrchu sioliau cashmir. Ar ôl ennill medal aur Cymdeithas y Celfyddydau am un o'i sioliau ym 1828, rhoddodd ddwy o'i eifr i'r Brenin Siôr IV, a oedd â meddwl mawr ohonynt, ac fe'u cadwodd ar ei stad yn Windsor. Dyna ddechreuad praidd geifr Cashmir brenhinol Windsor, ac erbyn i Victoria ddod i'r orsedd, roedd eu nifer wedi cynyddu'n sylweddol. Pan orseddwyd Victoria ym 1837, rhoddodd Shah Persia ddwy afr Cashmir wen iddi'n anrheg. Fodd bynnag, dechreuodd y praid ddirywio oherwydd mewnfriedo ac, ym 1889, mewnforiwyd praid newydd o'r India'n anrheg i'r frenhines.



Gafr ar sil uwchben Llandudno.

Yn ystod rhan olaf y 19 ganrif, cafodd yr Uwchfrigadydd Syr Savage Mostyn bâr o'r geifr hynny a dod â hwy i fridio yng Ngloddaiht gerllaw. Pan oedd digon ohonynt, fe ryddhaodd y geifr i grwydro'n rhydd ar y Gogarth, ac maent yma byth ers hynny.



Y llwybr heibio'r llethr sgïo tua Bwthyn Wyddfyd.

Ar ôl cyrraedd pen y llethr sgïo, ewch i lawr y grisiau cyntaf a throi tua'r dde, gan gadw'r wal a'r llethr sgïo danoch ar y chwith. Wrth nesáu at adeiladau'r llethr sgïo, edrychwch ar y bwthyn cerrig bach ar y dde i chi, sydd bellach yn swyddfa Ski Llandudno.

6 Dyma un o'r bythynnod hynaf yn Llandudno, a bu unwaith yn gartref i John a Betty Williams a'u teulu mawr. Roeddent yn deulu mawr eu parch, yn enwedig mewn cylchoedd crefyddol. Wyddfyd yw enw'r bwthyn ac mae wedi rhoi ei enw i'r ardal o gwmpas y llethr sgïo.

Cyn dyddiau Ski Llandudno, roedd dau gwrs golff pitsio a phytio bach yn y fan hon – cyn hynny, roedd y tir hwn yn dir amaeth.



Man cychwyn llwybr Pen Dinas.

Dilynwch y ffordd i lawr a throwch i faes parcio Ski Llandudno. Ewch i lawr at y bwrdd dehongli gyferbyn â gwaelod y llwybr slediau. Dilynwch y llwybr sydd ag arwyddion cyfeirio o'r bwrdd hwn ac i fyny'r allt goedig at yr ail fwrdd ger y copa.

7 Pen Dinas yw'r bryn hwn, a cheir golygfeydd braf iawn o'r copa ar draws Llandudno. 'Bryn y gaer' yw ystyr Pen Dinas. Roedd bryngaer o'r Oes Haearn yn sefyll yma ar un adeg, gyda mwy na 60 o gutiau crwn. Mae'r fan hon yn Heneb Gofrestredig oherwydd cyfoeth yr olion archeolegol. Mewn arolwg a wnaed gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ym 1993, cafwyd bod mwy na 200 o nodweddion o ddiddordeb archeolegol ar Ben Dinas, er bod rhaid edrych yn fanwl i weld llawer ohonynt.

Mae'r garreg siglo'n nodwedd arall diddorol ar Ben Dinas – mae plac yn ei dangos. Dywed Gwalchmai, yn ei lyfr 'Guide to Llandudno', y gallai'r garreg hon fod wedi'i defnyddio gan dderwyddon (a oedd yn rhan o hen grefydd y Celtiaid) i farnu pobl a oedd wedi'u cyhuddo o rai troseddau. Byddent yn rhoi mwgwd dros lygaid y carcharor a'i roi ar y garreg – os byddai'r garreg yn siglo, fe waeddai'r derwyddon, 'Mae'n ddieuog'. Os na fyddai'r garreg yn symud, byddent yn gweiddi, 'Mae'n euog, dros ben y clogwyn ag ef!'



Trwyn y Fuwch o gopa Pen Dinas.

Ewch yn ôl i'r ffordd a'i dilyn i lawr, gan fynd heibio i dai ar y dde i chi. Ar ochr chwith y ffordd yn y fan hon, fe welwch olion rhyw hen gorllannau cerrig.

8 Arferid cynnal ffair ddefaid yma ar 22 Medi bob blwyddyn.

Ewch ymlaen i lawr y ffordd, gan fynd heibio i dai ar y chwith i chi nes y dewch at gyffordd sydd â goleuadau traffig. Blackgate yw enw'r trigolion ar y rhan hon o'r pentir.

9 Flynyddoedd lawer yn ôl, roedd giât ar draws y ffordd yn y fan hon i atal defaid, gwartheg a cheffylau rhag pori islaw ar y Gogarth.



Tram yn cyrraedd Pen y Gwylfryn.

Ar y gyffordd hon, trowch i'r dde, gan ddilyn cledrau'r dramffordd i fyny'r allt, nes y gwelwch Tyn-y-Coed Road yn ymuno â'r ffordd ar y chwith.

10 Mae'r tramiau'n nodwedd hanesyddol arall o'r Gogarth. Erbyn ail hanner y 19 ganrif, roedd Llandudno wedi dod yn dref lan môr boblogaidd. Roedd llawer o'r ymwelwyr am fynd i weld y Gogarth ond yr unig fodd i gyrraedd y copa a mynd o gwmpas oedd ar droed, ar gefn ceffyl neu mewn cerbyd wedi'i dynnu gan geffyl ar ffordd anwastad. Felly dyma grŵp o ddynion busnes lleol yn penderfynu creu math newydd o system gludiant – tramffordd – i gludo pobl i gopa'r Gogarth.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ebrill 1901. Agorwyd y rhan isaf ym 1902 a'r rhan uchaf ym 1903. Mae pedwar tram ac mae pob un yn gallu cludo hyd at 48 o bobl. Mae bron 150,000 o deithwyr yn cael eu cludo ar y dramffordd bob blwyddyn erbyn hyn.



Y gromlech.

Trowch i'r chwith ac i Tyn-y-Coed Road a cherdded ymlaen am ychydig. Wrth y blwch llythyr, ewch ar draws y glaswellt tuag at y rhes o dai. Gyferbyn â chi fe welwch llwybr troed sydd wedi'i farcio â disg llwybr y copa wrth ochr y tŷ pen ar y chwith. Dilynwch y llwybr i fyny'r grisiau heibio i'r capel sydd wedi'i addasu ac i'r ffordd yn y pen uchaf. Pan ddewch i'r ffordd, trowch i'r dde nes cyrraedd Cromlech Road sy'n ymuno ar y chwith. Ewch i lawr y ffordd honno a dringo dros y gamfa yn y pen draw i weld un o nodweddion hanesyddol cynharaf y Gogarth.

11 Yma y gwelwch chi'r gromlech Llety'r Filiast, a allai olygu 'gwâl y filiast'. Fel y mae'r bwrdd dehongli'n egluro, olion siambr gladdu yw'r rhain a ddefnyddiwyd i gladdu grŵp o bobl yn Oes Newydd y Cerrig, rhwng 3,500 a 2,500 CC. Mae'n debyg mai dim ond aelodau pwysig o'r gymuned neu deuluoedd pwysig a gâi eu claddu fel hyn. Mae'r panel yn dangos sut y gallai'r gromlech fod wedi ymddangos pe na fyddai wedi cael ei haflonyddu arni dros y blynyddoedd. Mae'r gromlech yn heneb gofrestredig.

Ewch yn ôl dros y gamfa ac yn ôl i lawr Cromlech Road, gan droi i'r chwith ym mhen y ffordd ac wedyn i'r chwith eto ac i lawr Pyllau Road, gan ddilyn arwyddion Llwybr y Copa. Ewch heibio i'r tai a thrwy'r giât ac ewch ymlaen a heibio i gefn Mwyngloddiau'r Gogarth, oni bai eich bod am weld y mwyngloddiau a'r ganolfan ymwelwyr sydd yno.

12 Nid peth newydd yw'r diddordeb yn archeoleg mwyngloddiau copor y Gogarth – ers y 18 a'r 19 ganrif, pan fyddai mwynwyr y dydd yn torri i mewn i weithfeydd yr oeddent hwy hyd yn oed yn eu hystyried yn hen iawn, mae hynafiaethwyr ac ysgolheigion wedi dyfeisio damcaniaethau am ddechreuadau'r diwydiant. Fel arfer, byddent yn dod i'r casgliad mai'r Rhufeiniaid a oedd wedi dechrau eu gweithio gyntaf. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau dros y ddau ddegawd diwethaf (gyda manteision technoleg wyddonol fodern) wedi dangos bod y mwyngloddiau wedi'u gweithio'n gyntaf dros 3,500 mlynedd yn ôl, yn ystod yr Oes Efydd. I gael gwybod mwy am hanes y mwyngloddiau copor, gallwch fynd o gwmpas y ganolfan ymwelwyr sydd yno'n rhad ac am ddim.

Ar ôl gadael y mwyngloddiau copor, dilynwch arwyddion cyfeirio llwybr y copa. Byddwch yn mynd heibio i fwrdd dehongli sy'n rhoi gwybodaeth am y cloddio cynnar ar y Gogarth. Wedi ichi gyrraedd pen draw cae'r fferm ar y chwith, gallwch fynd allan o'ch ffordd i weld y chwarel. I gael gwybodaeth hanesyddol am y fan hon, gwelwch rif 1 ar Lwybr A.

Dilynwch yr arwyddion cyfeirio at y copa. Wrth ddychwelyd i'r maes parcio, byddwch yn mynd heibio i Ganolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig sydd ar agor yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf. Gallwch gael gwybod mwy y tu mewn am Barc Gwledig a Gwarchodfa Natur Leol y Gogarth. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr â mynediad llawn ar gyfer cadeiriau olwyn ac â chylchwfren ar gyfer defnyddwyr offer cymorth clywed.



2013
Cyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfeiriadau

- P. Bardell**
[The Great Orme, Llandudno's Mountain](#)
- W. Bezant Low**
[The Heart of Northern Wales](#)
- Philip C Evans**
[Ysgol Danio Arfordirol Llandudno](#)
- P. Evans**
[Notes on the history of the Llandudno water supply](#)
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
[Mining for copper 3,500 years ago](#)
[Pen y Dinas, an archaeological survey](#)
- D. Hague**
[Lighthouses of Wales](#)
- T. Parry**
[The Llys Helig Legend](#)
[The Cylchdro'r Gogarth \(ar ran Cymdeithas Hanes Llandudno\) The Rocking Stone](#)
- J. Roberts**
[Llandudno as it was \(erthyglau o'r Llandudno Advertiser\)](#)
- T. Rowlands**
[Recollections of Old Llandudno \(Llandudno Advertiser\)](#)
- D. Smith**
[The Great Orme Copper Mine](#)
- A. Stallard**
[Her notes on the Great Orme goats](#)
- R. Sutton**
[Great Orme Tramway](#)
[Cyfres arweinlyfrau Ward Lock](#)
- C. Williams**
[Northern Mine Research Society](#)
[No 52 British Mining](#)
- G. Wilsons**
[The Old Telegraphs](#)
- I. Wynne Jones**
[Llandudno, Queen of Welsh Resorts](#)
- T. Wynne**
[Llandudno, Its Saint and His Church](#)

Carem ddiolch i'r canlynol am gymorth o sawl math:
David Atkinson, PhilipCEvans, Tom Gravett,
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, Nick, Frank, a
Helen Jowett, Tom ac Eve Parry, Dr D Smith, y ddiweddar
Mrs A Stallard, Chris Williams a llawer un arall.

